



Cynllun Lliniaru Llifogydd Teras y Waun, Ynys-hir

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno yn Nheras y Waun i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 30 eiddo.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Strategol Perygl Llifogydd	Cwm Rhondda Fach Isaf
Canolfan/Swyddfa	Teras y Waun, Ynys-hir
Eiddo sy'n elwa	30 eiddo preswyl
Math o Gynllun	Gwella Cilfach Cwlfert
Cost	£234,096
Contractwr	Hammonds Construction
Statws	Wedi cwblhau
Dyddiad Cwblhau Cynllun	Gorffennaf 2022
Ffynhonnell Ariannu	Grant Cyfalaf Craidd RhCT Cynlluniau ar Raddfa Fach Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru



Cyn (chwith) ac Ar ôl (dde) Cynllun Lliniaru Llifogydd Ynyshir Heath Terrace

Cefndir y Cynllun

Mae Teras y Waun, Ynys-hir wedi'i nodi'n ardal sydd â pherygl llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsgiau dŵr cyffredin, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae dadansoddiad o achosion o lifogydd hanesyddol yn nodi bod cyfanswm o 11 eiddo preswyl profi llifogydd mewn 3 storm. Serch hynny, mae hi'n bwysig nodi bod cofnodion hanesyddol yn gyfyngedig ac efallai y bydd nifer uwch o achosion o lifogydd wedi digwydd dros y blynyddoedd.

Ar 15 a 16 Chwefror 2020, cafodd RhCT ei heffeithio gan dywydd eithafol a ddynodwyd gan y Swyddfa Dywydd yn 'Storm Dennis'. Arweiniodd y storm at lifogydd mewnol mewn 26 eiddo: gan gynnwys 24 eiddo preswyl a 2 eiddo dibreswyl. Mae prif ffynhonnell perygl llifogydd yn yr ardal yn gysylltiedig â ffynonellau glaw. Dydy'r perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r ardal ddim yn cael ei ystyried yn rhan o fater dalgylch ehangach, gan fod ffynhonnell y llifogydd wedi'i nodi mewn perthynas â'r capasiti hydrologig a'r duedd i falurion Gronni yn sianel a chilfach y rhwydwaith cyrsiau dŵr arferol.

Mae cymuned Ynys-hir hefyd wedi'i osod yn safle 55 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (Car), a ddatblygwyd i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

Disgrifiad o'r Cynllun

Roedd y gwaith yn Nheras y Waun, Ynys-hir, yn cynnwys uwchraddio dau strwythur cilfach cwlffert presennol sy'n gysylltiedig â'r cwrs dŵr cyffredin dienw sy'n rhedeg i lawr y bryn i'r dwyrain o Deras y Waun tuag at Afon Rhondda Fach. Hwyluswyd y gwaith uwchraddio i gynyddu gallu seilwaith y cwrs dŵr mewn cwlffert i reoli'r llif dŵr sy'n mynd i mewn i'r system, yn ogystal â gwella gallu'r seilwaith i wrthsefyll llifogydd.


Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys gosod sianel wedi'i leinio â choncrit yn lle'r sianel naturiol bresennol i leihau'r gyfradd sgwrio, lleihau faint o falurion sy'n cronni yn y cwrs dŵr, gwella sefydlogrwydd strwythurol glannau'r sianel a gwella cydnerthedd.

Yn ogystal â hynny, gosodwyd dyfeisiau monitro telemetreg yn y ddwy gilfach cwlffert yn Nheras y Waun, gan alluogi'r Cyngor i fonitro cyflwr y fewnfa a chanfod rhwystrau posibl i seilwaith yn gynnar.

Buddion y Cynllun



Lleihau perygl llifogydd
ar gyfer **30 eiddo**




**Gwell sefydlogrwydd
strwythurol** y cwrs
dwr



**Gwell amddiffyniad
rhag erydu** ar hyd y
cwrs dŵr



Lleihau risg rhwystyr
malurion



Monitro'r
cilfachau gyda
system TCC



Gosod system
larwm rhybudd
cynnar